Rhifyn 65

# Chwarae dros Gymru

Gwanwyn | Haf
2025

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae



## Chwarae yn y gymdogaeth: lleoedd a mannau i chwarae

Chwarae Cymru Play Wales

www.chwarae.cymru

# Cynnwys

3 Newyddion
6 Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yn y gymdogaeth
8 Meddwl yn greadigol
10 Stryd Chwarae Romilly Road
12 Diwrnod Chwarae 2025
14 Cyllid ar gyfer mannau chwarae a meysydd chwarae
16 Diwrnod Rhyngwladol Chwarae 2025
17 Chwarae fel gwrtheffaith
18 Datblygu'r gweithlu
20 Cymunedau chwareus

## Diolch

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud hebddoch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o **www.chwarae.cymru**

# Golygyddol

**Ceir cydgysylltiad rhwng chwarae ac ymdeimlad o berthyn i rywle. Yn draddodiadol, mae cael digonedd o gyfleoedd i chwarae bob dydd wedi rhoi ymdeimlad o hwyl i blant, ynghyd â manteision ychwanegol sy'n gallu eu hamddiffyn rhag ansicrwydd beunyddiol ac effaith negyddol trallod.**

Mae gan lawer ohonom atgofion melys o gael ein magu mewn cyfnod lle y derbyniwyd bod plant chwarae gyda'u ffrindiau yn yr awyr agored, yn eu cymdogaethau, ac o'u cwmpas. Mae'r mannau o amgylch y lle yr ydym yn byw ac yn cael ein magu ynddo wastad yn fannau sy'n ein cysylltu – yn llawn cilfachau a chorneli sy'n troi'n hudolus pan fydd gan blant ddigon o amser i chwarae ac yn cael caniatâd i wneud hynny.

Mewn arolygon diweddar, mae plant ledled Cymru wedi cadarnhau'r wireb gyfarwydd bod chwarae yn bwysig iddyn nhw. Mae barn y plant yn dyneiddio'r dystiolaeth gymhellol: mae chwarae'n cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach. Mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas, gwneud cysylltiadau a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

“Mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas, gwneud cysylltiadau a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.”

Roedd thema cyfiawnder gofodol Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i pam a sut y mae angen i ni wneud ein cymdogaethau a mannau cyhoeddus eraill yn lleoedd sy'n annog ac yn croesawu chwarae. Mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â sicrhau mynediad teg a chyfiawn i blant i'r hyn sydd gan fannau cyhoeddus, ac yn enwedig cymdogaethau, i'w gynnig, a'u cyfranogiad ynddo.

Mae oedolion a phlant yn parhau i nodi nifer o ffactorau sy'n effeithio ar y cyfleoedd i blant wireddu eu hawl i chwarae, yn benodol: newidiadau mewn cymdogaethau, gan gynnwys mwy o ddefnydd o geir a thraffig, y canfyddiadau o ddiogelwch cymdogaethau (traffig, bwlio, hiliaeth, perygl dieithriaid), cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig a gofynion addysgol, ac anoddefgarwch tuag at blant ac arddegwyr yn chwarae ac yn dod at ei gilydd.

Mae gallu chwarae yn eu cymdogaethau'n fater o gydraddoldeb i blant fel grŵp. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gafwyd gan blant yn ei gwneud yn glir nad yw chwarae'n brofiad cyfartal. Mae rhai grwpiau o blant ac arddegwyr yn wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n ymwneud â diogelwch, cynhwysiant a pherthnasedd y ddarpariaeth sydd ar gael ger y mannau y maent yn byw ynddynt. Mae ystyried yr amodau sy'n cefnogi'r rhai sy'n cael trafferth cael profiadau o chwarae yn eu cymdogaethau a mynd i'r afael â nhw yn darparu profiad mwy cyfartal i blant.

Defnyddiodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae dystiolaeth o lenyddiaeth a barn plant, a oedd oll yn pwysleisio'r un pwynt: mae chwarae o fudd i blant, teuluoedd a'r cymdogaethau y maent yn byw ynddynt. Mae plant yn ein hatgoffa bod chwarae yn rhywbeth sy'n dod yn reddfol iddynt, a gallant ganfod cyfleoedd i chwarae pan fydd yr amodau'n gywir. Mae'n hanfodol ein bod ni oll – yn rhieni, yn ymarferwyr, yn llunwyr polisi a'r gymuned ehangach – yn cymryd camau i sicrhau bod yr amodau'n gywir i blant gael digon o gyfleoedd i chwarae. Bydd bod yn ystyriol o brofiadau plant a'u perthynas â chymdogaethau yn helpu i greu Cymru sy'n fwy chwareus i bob plentyn.

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan Chwarae Cymru ddwy waith y flwyddyn. Cysylltwch â'r Golygydd yn: Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF
Rhif ffôn: 029 2048 6050 I Ebost: gwybodaeth@chwarae.cymru
Elusen Gofrestredig Rhif 1068926 I ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchgrawn hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.
Crewyd gan Carrick | carrickcreative.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffanfer, os gwelwch yn dda…

**Llongyfarchiadau i gydweithwyr a chefnogwyr Chwarae Cymru sydd wedi cael eu cydnabod yn ddiweddar am y gwaith a wnânt dros blant Cymru:**

- Rhoddwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i **Julian Davenne**, Rheolwr Gwasanaethau Chwarae Cyngor Torfaen, yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin. Cafodd Julian, sy'n cefnogi darpariaeth gwaith chwarae ledled y sir drwy gydol y flwyddyn, gydnabyddiaeth am ei wasanaethau i bobl ifanc.
- Mae **Sarah Sharpe**, sy'n warchodwraig gofrestredig ym Mro Morgannwg a weithiodd yn agos gyda Chwarae Cymru ar ein pecyn cymorth *Chwarae y tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar*, wedi ennill y wobr Gofalwn Cymru.
- Cyrhaeddodd **Ysgol Gynradd Windsor Clive** yng Nghaerdydd y rhestr fer ar gyfer Gwobrwyon Ysgolion Tes 2025 yn y categori Menter y Flwyddyn ar gyfer Iechyd Meddwl Disgyblion, am ei hymrwymiad rhagorol i gefnogi lles myfyrwyr. Dyma'r unig ysgol gynradd yng Nghymru i ymddangos ar y rhestr fer ar gyfer y gwobrau hyn, ac mae wedi cefnogi Chwarae Cymru drwy weithredu fel seinfwrdd yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25.
- Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol i **Dr Charlotte Brookfield** o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd – sef y wobr uchaf yn y sector. Bu Chwarae Cymru yn lleoliad ar gyfer myfyrwyr ym modiwl Ymchwil Byd Go Iawn Charlotte, sy'n anelu at ddysgu dulliau ymchwil meintiol i fyfyrwyr gwyddorau cymdeithasol.
- Daeth **Hosbis Plant Tŷ Gobaith** yng Nghonwy yn ail yng Ngwobrau Arloesedd Starlight Children's Foundation am ei gwaith yn datblygu rhaglen gyffrous a hygyrch o ddigwyddiadau chwarae i gefnogi teuluoedd plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau.
- Cafodd **Dr Gwenllian Lansdown Davies**, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, ei hurddo gyda'r Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol 2025 yn Wrecsam. Cafodd Gwenllian ei chydnabod am ei gwaith i ehangu a datblygu hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

# Bil Pob Plentyn

**Cyflwynwyd y Bil Pob Plentyn, sef cynnig deddfwriaethol sy'n galw ar y Senedd i ymgorffori hawliau plant yng nghyfraith Cymru, gan Jane Dodds AS. Mae mwy nag 20 o sefydliadau wedi cefnogi'r cynnig, gan gynnwys Chwarae Cymru.**

Mae'r cynnig yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i wrando'n astud ar bob plentyn yng Nghymru, a'i warchod a'i gefnogi, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau. Mae'n anelu at warantu bod hawliau plant yn cael eu trin fel rhai sy'n hanfodol i wneud penderfyniadau ac atebolrwydd cyhoeddus.

Mae'r ymgyrch sy'n sail i'r Bil Pob Plentyn yn deillio o gydnabyddiaeth gynyddol, er gwaetha'r cynnydd, bod gormod o blant yng Nghymru, yn enwedig y rhai mewn gofal, yn parhau i wynebu rhwystrau i gael eu clywed, i fod yn ddiogel ac i gael eu cefnogi'n briodol.

Meddai Jane Dodds, Cadeirydd y Grwpiau Trawsbleidiol, Plant yn ein Gofal a Phlant a Theuluoedd:

> **"Mae hyn yn ymwneud â chreu Cymru lle mae pob plentyn yn gwybod bod ei lais yn cyfrif, lle mae ei ddiogelwch wedi'i warchod gan y gyfraith, a lle mae ei ddyfodol yn cael ei lunio gydag urddas a gofal."**

Ychwanegodd Chwarae Cymru:

> **"Mae Cymru'n cael ei gweld, a hynny'n briodol, fel gwlad lle mae chwarae plant yn cael ei flaenoriaethu. Nodwyd yr angen am y ddeddfwriaeth hon yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Mae gan y Bil Pob Plentyn y potensial i estyn y ddeddfwriaeth bresennol a sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu i chwarae."**

# Ymchwil Egwyddorion Gwaith Chwarae – rhannwch eich barn

**Mae Chwarae Cymru wedi comisiynu Tîm Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae Prifysgol Leeds Beckett, i gynnal arolwg ar y graddau y defnyddir yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.**

Mae'r ymchwil wedi ei ddylunio i ddysgu pa mor eang ac ym mha leoliadau y mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae wedi eu mabwysiadu 20 mlynedd ers iddynt gael eu dyfeisio gyntaf. Mae 2025 yn nodi 20fed pen-blwydd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Bydd yr ymchwil yn golygu holi'r sector gwaith chwarae'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, i ddynodi:

- sefydliadau a rhanddeiliaid sydd wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae neu sy'n defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae i lywio eu gwaith
- sefydliadau sydd wedi mabwysiadu ffurfiau amgen o egwyddorion canllaw ar gyfer gwaith chwarae.

Mae'r gwaith ymchwil yma wedi ei gymeradwyo gan Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n dal yr Egwyddorion Gwaith Chwarae mewn ymddiriedolaeth ar ran y sector.

LEEDS BECKETT UNIVERSITY SCHOOL OF HEALTH

Rydym yn gofyn i unrhyw un sydd ag unrhyw rôl neu gyfrifoldeb am hwyluso chwarae ar gyfer plant mewn lleoliad wedi ei staffio, i gwblhau'r holiadur hwn.

Rydym yn awyddus iddo gael ei ddosbarthu mor eang â phosibl, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ydych chi'n cynrychioli sefydliad sydd â chysylltiadau ar draws y gweithlu plant allai fod yn defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn eu gwaith? Allech chi helpu i hyrwyddo'r arolwg? Os felly, e-bostiwch y Tîm Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae: **playworkprinciples@leedsbeckett.ac.uk**

**I rannu eich barn, cwblhewch yr holiadur erbyn 31 Rhagfyr 2025.**

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â: **www.chwarae.cymru/news_category/ymchwil-egwyddorion-gwaith-chwarae-rhannwch-eich-barn**

## Fframwaith gweithredu ar gyfer y blynyddoedd cynnar

**Yn ddiweddar, siaradodd Chwarae Cymru yn lansiad *Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar*, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyhoeddwyd y fframwaith ochr yn ochr ag adroddiad Mewnwelediadau Rhieni, ac mae'n amlinellu dull newydd i wella'r cymorth i deuluoedd â babanod a phlant ifanc.**

Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd arbenigedd gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar a phrofiadau bywyd rhieni a gofalwyr i ddiffinio beth mae'n ei olygu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnig cydweledigaeth glir ar gyfer sut y gall y system blynyddoedd cynnar ddod â'r fframwaith yn fyw.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae'r fframwaith yn cynnwys saith bloc adeiladu thematig sy'n nodi manylion elfennau'r system sydd fwyaf pwysig i fabanod, plant ifanc a'u teuluoedd, gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar eu bywydau bob dydd a'u canlyniadau. Mae cyfleoedd i fabanod a phlant ifanc allu chwarae, archwilio a dysgu yn nodwedd allweddol o fewn y blociau adeiladu.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.icc.gig.cymru/newyddion1/lleisiau-rhieni-wrth-wraidd-fframwaith-gweithredu-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-newydd/**

# Cynhadledd genedlaethol 2025 Chwarae Cymru

**Yn dilyn llwyddiant digwyddiad y llynedd, bydd ein cynhadledd genedlaethol yn ôl yr hydref hwn. Gyda ffocws ar y thema Polisi chwarae, ymchwil ac ymarfer: Cael pethau'n iawn i blant, cynhelir y gynhadledd yng ngwesty'r Hilton, Caerdydd ar 16 Hydref 2025.**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sectorau chwarae a gwaith chwarae wedi sicrhau cynnydd sylweddol wrth greu amgylchedd chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant, wedi ei gefnogi gan bolisi ac ymchwil arloesol. Mae angen i ni feithrin a chynnal y cynnydd a'r momentwm hwn.

Ymunwch â ni yng nghynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru i drafod sut allwn ni gynnal y momentwm hwn ac archwilio ffyrdd i ehangu ar ein gwaith ni i gyd, a chydweithio i ddarparu, hyrwyddo a gwarchod hawl plant i chwarae.

### Y prif siaradwyr gwadd yn y gynhadledd eleni fydd:

- **Dawn Bowden AS** – y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
- **Dr David Dallimore** – ymchwilydd ac ymgynghorydd
- **Yr Athro Philip Jaffé** – Is-gadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- **Robyn Monro Miller** – Llywydd yr International Play Association a Chymrawd Ymddiriedolaeth Winston Churchill.

### Bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i gynadleddwyr:

- glywed am farn plant ynghylch eu bodlonrwydd chwarae
- myfyrio ar a rhannu arfer da am chwarae plant
- cyfrannu at ystod eang o weithdai astudiaethau achos
- rhwydweithio gyda chydweithwyr
- ystyried ffyrdd i sicrhau bod polisi ac ymchwil yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i blant a'u cyfleoedd i chwarae
- dathlu safle Cymru wrth lunio tueddiadau byd-eang a syniadau am chwarae.

### Mae'r gynhadledd wedi ei hanelu at:

swyddogion digonolrwydd chwarae, ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, aelodau etholedig llywodraeth leol, a'r rheini sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, teithio llesol, cynllunio cymunedol a thref.

I ddysgu mwy am y gynhadledd ac i archebu eich lle, ewch i:

**www.chwarae.cymru/events/cynhadledd-chwarae-cymru**

# Lansio gwefan newydd Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol

**Mae swyddogion chwarae o chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru wedi cyfrannu at wefan Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol (ILlGE) a lansiwyd yn ddiweddar. Datblygwyd y fenter ranbarthol gydweithredol hon drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant Gogledd Cymru.**

Mae gwefan ILlGE, a gynlluniwyd i hyrwyddo lles emosiynol ar draws cwrs bywyd yng ngogledd Cymru, wedi'i seilio ar yr egwyddorion ymyrraeth gynnar, atal a chydgynhyrchu. Mae'n cyd-fynd â'r Fframwaith Iechyd, Lles a Gwytnwch ac yn cynnwys:

- **Dull y teulu cyfan** – adnoddau i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, sy'n canolbwyntio ar amgylcheddau meithringar o enedigaeth.
- **Adran plant a phobl ifanc** – cynnwys sy'n briodol i oedran i feithrin llythrennedd emosiynol a gwydnwch.
- **Pum ffordd at les** – wedi'u hymgorffori ar draws y wefan gyfan: Cysylltu, Bod yn Egnïol, Sylwi, Dal i Ddysgu, a Rhoi.
- **Adnoddau proffesiynol** – offer i'w defnyddio ar draws sectorau yn y meysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Mae timau chwarae awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth leol ar gyfer **Adran Archwilio'r Tu Allan** y wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd lleol i chwarae.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: **www.llesgogledd.cymru**

# Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yn y gymdogaeth

**Mae Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd i chwarae. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â phlant am eu cyfleoedd i chwarae.**

Wrth fesur digonolrwydd chwarae, mae'n bwysig gwerthfawrogi safbwyntiau plant ac arddegwyr ynghylch yr hyn sy'n dda a'r hyn nad yw cystal am eu profiad o chwarae yn eu cymdogaethau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy siarad â nhw wyneb yn wyneb a thrwy gynnal arolygon. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall y rhwystrau i greu amgylchedd sy'n addas ar gyfer chwarae. Mae gan y canlyniadau rôl bwysig o ran darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar awdurdodau lleol i nodi'r bylchau mewn darpariaeth ac i gefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae'r ymatebion yn amlygu'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn ogystal â'r rhwystrau sylweddol i amgylcheddau chwareus, cynhwysol a diogel.

Yn gynnar yn 2025, gofynnodd Chwarae Cymru i awdurdodau lleol rannu canlyniadau eu Harolygon Bodlonrwydd Chwarae. O'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ymatebodd 19 ohonynt ac roedd 15 wedi gallu darparu data dienw mewn fformat y gellid ei ddadansoddi. Mae hyn yn golygu ein bod wedi dadansoddi barn 7,825 o blant ac arddegwyr ledled Cymru, gan archwilio eu profiadau o chwarae yn eu cymdogaethau.

Mae'r ymchwilwyr Dr Michaela James a Dr Hope Jones o Brifysgol Abertawe wedi cynnal dadansoddiad ansoddol o ddau gwestiwn o'r arolwg:


- **Beth sy'n dda am chwarae yn eich ardal chi?**
- **Beth sydd ddim cystal am chwarae yn eich ardal?**

## Beth sy'n dda?

### Mannau gwyrdd ac agored

Mae nifer o blant yn mwynhau cael mynediad at barciau, caeau ac amgylcheddau naturiol sy'n ddiogel, yn hwyl ac yn agos at adref. Mae'r mannau hyn yn caniatáu iddynt chwarae a chymdeithasu.

> **"Mae llawer o fannau gwyrdd a fforestydd yn agos at ble dw i'n byw, mae'n ardal dawel ac mae llawer o leoedd i gymdeithasu."**
> Bachgen, 11 oed




> **"Mae'n fawr – rydyn ni'n gallu rhedeg o gwmpas a chwarae pêl-droed a defnyddio ein bagiau a'n cotiau fel goliau."**
> Bachgen, 10 oed

> **"Mae llawer o goed i'w dringo a llawer o le i chwarae."**
> Merch, 10 oed

### Cyfleoedd i chwarae

Mae plant yn gwerthfawrogi mannau lle gallant chwarae'n rhydd ac yn greadigol yn arbennig, yn aml heb fawr o ymyrraeth gan oedolion, neu dim ymyrraeth o gwbl.

> **"Mae'n wych ac mae gennym lawer o le i chwarae a gwneud beth bynnag rydyn ni ei eisiau."**
> Merch, 9 oed

> **"Mae 'na LWYTH o le a chuddfan fach wedi'i gwneud o goed (cae pêl-droed a pharc hefyd!)."**
> Bachgen, 10 oed

## Cyfeillgarwch a chymdeithasu

Thema gref oedd pwysigrwydd cyfeillgarwch i alluogi chwarae. Roedd plant yn gwerthfawrogi gallu cymdeithasu â ffrindiau, gan gyfeirio'n aml at guddfannau cyfrinachol, mynd ar eu beiciau a mannau lleol i gymdeithasu.

> **"Mae 'na lawer o bobl rydyn ni'n eu nabod y gallwn ofyn iddyn nhw am help os bydd ei angen arnon ni."**
> Merch, 15 oed

> **"Rwy'n ei hoffi oherwydd mae gen i ffrindiau ar fy stryd sy'n galw amdana'i a dydyn nhw ddim yn fy ngadael allan ac rydym yn mynd i'r cae neu i'r goedwig neu'r stryd."**
> Plentyn, 10 oed

## Teimlo'n ddiogel

Mewn sawl ardal, disgrifiodd y plant eu hardaloedd fel rhai diogel i chwarae ynddyn nhw, oherwydd traffig ysgafn, goleuo da neu gyfeillgarwch â chymdogion.

> **"Rwy'n agos at fy ffrindiau ac mae llawer o bobl sydd â chamerâu ar eu tai er diogelwch."**
> Merch, 8 oed

> **"Mae'n dda oherwydd mae'n fawr iawn ac yn dda i blant, mae'n ddiogel iawn; mae mor ddiogel fel bod fy mam a fy nhad yn ei hoffi!"**
> Plentyn, 13 oed

# Beth sydd ddim cystal?

## Diogelwch

Diogelwch oedd y mater y cyfeiriwyd ato amlaf. Fe wnaeth y plant gyfeirio at bryderon ynghylch bwlio, y defnydd o gyffuriau, baw ci, gwaith cynnal a chadw gwael a ffyrdd anniogel sy'n eu hatal rhag chwarae'n rhydd neu gael mynediad at y mannau y maent yn eu mwynhau.

> **"Mae llawer o bobl yn cymryd cyffuriau ym mhob man. Hyd yn oed yn y parciau."**
> Merch, 11 oed

## Angen gwelliannau i gyfarpar presennol

Mewn sawl ardal, dywedwyd bod y cyfarpar chwarae yn hen ffasiwn, wedi torri neu ond yn addas ar gyfer plant ifanc. Roedd nifer yn galw am fuddsoddiad mewn mannau ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr.

> **"Mae'r siglenni wedi rhydu'n ddrwg ac mae'n teimlo fel y byddan nhw'n torri pan fyddwch chi'n mynd yn uchel."**
> Bachgen, 9 oed

> **"Mae'r sleidiau'n fudr ac yn ddiflas."**
> Plentyn, 10 oed

## Diffyg cyfleoedd

Mynegodd rhai plant eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg pethau i'w gwneud a'r pellter teithio hir a diffyg ardaloedd dynodedig neu addas ar gyfer arddegwyr, yn ogystal â theimlo nad oedd croeso iddynt.

> **"Lle bynnag rydyn ni'n mynd, rydyn ni'n cael ein barnu. Dw i ddim eisiau chwarae ar siglenni a sleidiau."**
> Bachgen, 13 oed

> **"Does dim byd o ddiddordeb i mi. Maen nhw i gyd yn weithgareddau chwaraeon a dwi ddim yn mwynhau chwaraeon."**
> Bachgen, 13 oed

## Rhwystrau i gynhwysiant

Dywedodd plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nad yw nifer o fannau a chyfleoedd yn gynhwysol. Datgelodd yr ymatebion anghydraddoldebau hefyd o ran mynediad at gyfleoedd chwarae diogel a hygyrch i blant anabl a niwrowahanol.

> **"Dim digon o ardaloedd chwarae sy'n addas i blant ag awtistiaeth, sy'n gallu bod yn rhy brysur a chodi ofn arnaf."**
> Bachgen, 10 oed

> **"Does gen i ddim diddordeb mewn chwaraeon a does dim clwb ieuenctid ar gael yn lleol ar gyfer plant AAAA."**
> Bachgen, 13 oed

## Diffyg amser

Dywedodd rhai o'r plant hŷn fod pwysau academaidd, gwaith cartref, neu weithgareddau eraill yn gadael ychydig o amser ar gyfer chwarae yn yr awyr agored neu gymdeithasu gyda ffrindiau.

> **"Gwaith cartref, a blaenoriaethau eraill fel y gampfa a does gen i ddim digon o amser."**
> Merch, 15 oed

Mae canfyddiadau'r arolygon Bodlonrwydd Chwarae yn amlygu'r ffaith bod plant yn gwybod beth sydd ei angen arnyn nhw, sef mannau cynhwysol, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac sy'n addas i bob oedran.


Mae'r ymatebion hyn gan blant yn amlygu'r ffaith bod amodau lleol yn cael dylanwad mawr ar brofiadau chwarae plant. Er bod rhai ardaloedd yn cefnogi chwarae drwy ddyluniad cynhwysol a mannau gwyrdd hygyrch, mae eraill yn annigonol, yn enwedig ar gyfer arddegwyr a phlant ag anghenion ychwanegol. Mae hyn yn cadarnhau'r angen am ddulliau sy'n seiliedig ar le sy'n ystyried heriau ac asedau penodol pob cymuned.

**Bydd ein hadroddiad llawn ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.**

# Meddwl yn greadigol:

## cyflwyno chwarae ym mhob man ac unrhyw fan

**Nod prosiectau chwarae mewn cymdogaethau yw darparu cyfleoedd i blant chwarae ger lle maen nhw'n byw. Gareth Stacey o Dîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Becki Miller o Wasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd, a Rachel Jones o Uned Blynyddoedd Cynnar Gwynedd sy'n trafod prosiectau lleol sydd wedi gwella'r ffordd mae plant ac arddegwyr yn defnyddio mannau mewn cymdogaethau i chwarae.**



Sesiwn chwarae yn llawn rhannau rhydd yn y cynhwysydd yng Nghoed-poeth

### Prosiect Chwarae ac Ieuenctid Coed-poeth

**Dechreuodd Cyngor Cymunedol Coed-poeth yn Wrecsam ariannu cynlluniau chwarae yn 2015, gan gynnig sesiynau gwyliau wythnosol i ddechrau mewn man agored cyhoeddus ger ardal chwarae sefydlog ar ystâd dai. Roedd y sesiynau hyn yn boblogaidd ar unwaith, gan ennyn cefnogaeth gan breswylwyr, pobl broffesiynol a busnesau lleol i ehangu'r cynnig i blant.**

Yn 2018, gydag arian gan Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, gosodwyd cynhwysydd llong wedi'i addasu a chynhwysydd storio, gan ddarparu safle ar gyfer y sesiynau chwarae a'r sesiynau ieuenctid. Gosodwyd cladin y tu mewn i'r cynhwysydd, a ffenestri a drysau er mwyn gallu cynnal sesiynau o dan do yn ystod tywydd gwael. Roedd y datblygiad hwn yn seiliedig ar ymgynghoriad helaeth, nid yn unig gyda phlant, ond hefyd gyda phreswylwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol.

Ar yr un pryd, cafodd tîm Datblygu Chwarae yr awdurdod lleol â'r tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol eu cyfuno gan greu tîm integredig, sef Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid. Mae'r newid strwythurol hwn wedi caniatáu darpariaeth fwy cyflenwol o sesiynau chwarae a sesiynau ieuenctid. O ganlyniad, cynhaliwyd sesiynau clwb ieuenctid hefyd yn y cynhwysydd ar ôl y sesiynau chwarae, a hynny gan staff sydd wedi'u hyfforddi mewn gwaith chwarae a gwaith ieuenctid, gan gyflwyno dull cyfunol o ddarparu ar gyfer plant ac arddegwyr yn y gymuned.

Mewn blynyddoedd diweddar, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid lleol, gwnaed gwelliannau pellach, gan gynnwys sesiynau graffiti i addurno'r cynhwysydd, gosod seddau a deciau, a chreu rhandiroedd i ymgysylltu ymhellach â'r gymuned. Yn fwy diweddar, mewn partneriaeth â'r cyngor cymunedol, mae cwmni adeiladu lleol wedi creu ardal fwy dan do sy'n gysylltiedig i'r cynhwysydd fel rhan o'u cynllun budd cymunedol.

Un o'r prif bethau a ddysgwyd o'r prosiect hwn yw bod ei ddatblygiad graddol dros sawl blwyddyn wedi caniatáu i'r fenter ymwreiddio'n ddwfn o fewn y gymuned. Mae plant wedi cymryd perchnogaeth o'r lle ac, yn hanfodol, mae'r holl ddatblygiadau yn seiliedig ar leisiau'r plant eu hunain.

### Cwt Chwarae Pafiliwn Grange

**Yn swatio ar dir gwyrddlas Pafiliwn Grange yng Nghaerdydd, rhwng y coed a'r parc chwarae lleol, mae cynhwysydd metel bach ond gwych, sy'n mesur 2x2 metr. Mae'r strwythur diymhongar hwn sy'n llawn pethau annisgwyl – a elwir yn Gwt Chwarae – yn trawsnewid yn fwrlwm o ddychymyg, creadigrwydd a chymuned, a hynny sawl gwaith yr wythnos.**

Pan fydd ei ddrysau'n agor, mae'r Cwt Chwarae'n datgelu trysorfa o ddeunyddiau sydd wedi'u hanelu i roi pleser ac ysbrydoli chwarae. O ddarnau mawr rhydd fel teiars, cretiau



**Chwarae gyda dŵr gyda rhannau rhydd yn y Cwt Chwarae ym Mhafiliwn Grange**

a gwteri, i eitemau llai, mwy anarferol fel allweddellau a gwrthrychau bob dydd wedi'u haddasu i gael hwyl; mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd. Nid oes dwy sesiwn chwarae fyth yr un fath – mae gan blant y rhyddid i archwilio, dyfeisio a gadael i'w dychymyg redeg yn wyllt.

Mae'r Cwt Chwarae'n fwy na chynhwysydd yn llawn gwrthrychau chwarae, mae'n gonglfaen i'r gymuned. Mae'n hyrwyddo chwarae rhydd, yn annog creadigrwydd ac yn meithrin ymgysylltiad cynhwysol i blant o bob cefndir. Mae'r cwt yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan grwpiau addysg yn y cartref, rhieni sy'n cwrdd, a gwasanaethau chwarae ieuenctid a phlant, ac fe'i rheolir yn annibynnol gan dîm y pafiliwn. Mae'r dull gweithredu llawr gwlad hwn yn hyrwyddo perchnogaeth leol ac yn cryfhau'r ymdeimlad o gymuned sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Ysbrydolwyd y prosiect Cwt Chwarae, a ddechreuwyd gan Gyngor Caerdydd yn 2022 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, gan brosiect Play Cubes tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r Cwt Chwarae yn un o 16 o fannau tebyg ledled Caerdydd, sydd wedi'u lleoli ar dir ysgolion ac mewn mannau cymunedol. Mae'n deillio o bartneriaeth bwerus rhwng y storfa sborion Re-create, Gwasanaethau Chwarae Plant a Chwarae Cymru. Mae Re-create wedi chwarae rhan hollbwysig o ran cefnogi'r fenter, gan helpu i lenwi'r cytiau gydag adnoddau a ddewiswyd gan y rhai sy'n cynnal y cytiau chwarae. Drwy ei brosiect Llysgennad Chwarae Cymunedol, darparodd Chwarae Cymru hyfforddiant rhannau rhydd i rieni a phreswylwyr lleol.

Penderfynwyd ar gynnwys y cwt gan weithwyr chwarae a rhanddeiliaid yn y lle cyntaf, ond bellach mae'r deunyddiau'n cael eu hailgyflenwi drwy ymgynghori â'r plant sy'n defnyddio'r cwt, gan sicrhau bod y lle yn datblygu gyda'u diddordebau. Mae'r holl randdeiliaid wedi cael hyfforddiant mewn chwarae rhannau rhydd ac asesu risgiau a buddion, gan sicrhau amgylchedd diogel ond anturus i bawb.

Mae Cwt Chwarae Pafiliwn Grange yn enghraifft wych o sut y gall syniad syml gael effaith barhaol, un foment chwareus ar y tro.

## Trelar Chwarae Gwynedd

**Yn 2021, buddsoddodd Uned Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gwynedd mewn trelar gyda chyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Roedd swyddogion yr uned wedi nodi bod diffyg gweithgareddau chwarae mewn ardaloedd yn y sir, a gwelsant y trelar fel rhywbeth a allai lenwi'r bwlch hwn drwy fynd ag adnoddau i'r cymunedau a darparu cyfleoedd i blant chwarae.**

Dyma ddechrau Trelar Chwarae Gwynedd. Mae'r trelar yn llawn adnoddau rhannau rhydd sy'n rhoi cyfle i deuluoedd a phlant hyd at 11 oed chwarae yn yr awyr agored gyda'u ffrindiau.

Mae staff chwarae cymwysedig Meithrinfa Plas Pawb, a staff o dimau eraill yr uned, yn gyfrifol am fynd â'r trelar i gymunedau ledled y sir yn ystod gwyliau'r haf. Mae cydweithio gydag ysgolion a chynghorau cymunedol yn sicrhau bod y trelar yn mynd i ardaloedd lle nad oes llawer o weithgareddau eraill i blant.

Gyda'r holl adnoddau yn y trelar, nid oes yr un sesiwn yr un fath – mae gweld y plant yn defnyddio eu dychymyg ac yn mwynhau wrth iddynt gydweithio i greu 'cuddfan' neu addasu twb glas yn gwch neu'n gerbyd yn bleser pur! Beth well na sesiwn dwy awr yn yr awyr agored, a chyfle i chwarae, cael hwyl, chwerthin a mwynhau gyda ffrindiau?

Erbyn hyn, mae'r Trelar Chwarae yn adnabyddus ledled y sir yn ystod gwyliau'r ysgol, a chafwyd adborth gwych gan y plant a'r rhieni, sy'n profi y bu'r weledigaeth a'r buddsoddiad yn werth pob ceiniog.



**Hwyl gyda rhannau rhydd gyda'r Trelar Chwarae mewn cymuned yng Ngwynedd**

# Stryd Chwarae Romilly Road – creu cymuned chwareus

**Cynllun i gau ffyrdd yn swyddogol am gyfnodau byr wedi'i arwain gan gymdogion yw Strydoedd Chwarae, gan roi rhyddid i blant chwarae'n ddiogel gyda'i gilydd ar eu stepen drws.**

**Ers dros ddwy flynedd, mae plant ar Romilly Road yn y Barri, Bro Morgannwg, wedi mwynhau sesiynau stryd chwarae misol, diolch i ganiatâd gan y cyngor i gau'r ffordd yn swyddogol dros dro.**

**Aoife Blight, trefnydd stryd chwarae, sy'n myfyrio ar ei phrofiad o ddechrau cynllun stryd chwarae yn ei hardal hi.**



Mae Romilly Road wastad wedi bod yn gymdogaeth hyfryd. Mae'r cymdogion yn gefnogol a chyfeillgar ac yn dod at ei gilydd i ddathlu digwyddiadau arbennig (jiwbilîs, diwrnod VE ac ati), ond gellid maddau i rywun am feddwl, o ddydd i ddydd, mai ychydig o blant sy'n byw ar y stryd. Anaml iawn y byddech yn gweld plant yn mynd allan i chwarae, ond newidiodd hynny pan wnaethom ddechrau cynnal ein sesiynau stryd chwarae.

Pan ddeuthum yn rhiant am y tro cyntaf, doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor anodd fyddai rhoi cyfleoedd i'r plant chwarae y tu allan i'r tŷ. Roedd bob tro'n golygu mynd i'r parc neu i ganolfannau chwarae meddal, ac roedd hynny'n bosibl pan oeddwn ar gyfnod mamolaeth ond nid felly pan ddychwelais i weithio'n llawn amser. Tybed oedd hi yr un mor anodd i'm rhieni, meddyliais. Oedden nhw wastad yn ceisio dod o hyd i amser i fynd am dro i'r parc chwarae? Sylweddolais fod rhan fawr o'm plentyndod wedi'i dreulio yn yr awyr agored, yn chwarae gyda phlant yn fy nghymdogaeth. Bydden ni'n treulio oriau yn archwilio ein hamgylchedd, yn chwarae 'Troi'r Tun' ac yn rhedeg ar ôl ein gilydd.

Rwy'n cofio cymaint o hwyl yr oeddwn i'n ei gael ac roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau gwneud yn siŵr bod fy mhlant yn cael yr un cyfle i chwarae a thyfu i fyny gyda'u cymdogion. Ond roedd un broblem – mae gyrwyr yn gwibio i lawr ein ffordd, gan ei defnyddio fel llwybr byr i arbed ychydig eiliadau ac amddifadu ein plant o'r cyfle i chwarae'n ddiogel. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud, ond yna fe wnes i ddarganfod Strydoedd Chwarae. Cau'r ffordd i yrwyr a'i hagor i blant allu chwarae – yr ateb perffaith.

Gan ddefnyddio ychydig o gonau i arafu'r traffig, byddwn i a'm cymydog yn mynd allan gyda'n plant i gael ychydig o hwyl dan oruchwyliaeth. Doedden ni ddim yn cau'r ffordd yn llwyr, ond roeddem yn arafu'r ceir ddigon i greu lle i'r plant chwarae. Cafodd hyn sylw cadarnhaol gan y cymdogion eraill a doedd hi fawr o dro nes i ni ennyn cefnogaeth yr holl stryd i gau'r ffordd er mwyn i'r plant gael chwarae. Gweithiais gyda Thîm Datblygu Chwarae y cyngor lleol a Chwarae Cymru i gynnal yr asesiadau risg ac i gael y caniatadau angenrheidiol ac yna roeddem yn gallu agor y ffordd ar gyfer amser chwarae.

Bellach, mae gennym gymuned o rieni a chymdogion sy'n ein helpu i gau'r ffordd bob mis. Rydym yn cau'r ffordd yn llawn am ddwy awr ar ddydd Sul cyntaf y mis, gyda mynediad i breswylwyr yn unig, ac mae'r plant yn dod allan i chwarae. Mae'r rasys sgwteri, y gemau sgipio â rhaff, y pêl-droed a'r rhedeg o gwmpas yn golygu mai dyma hoff amser y mis i bawb. Fy hoff bethau yw'r darluniau sialc sy'n aros ar y ffordd a'r pafin am ddyddiau ar ôl y sesiwn, gan ein hatgoffa o'r hwyl. Mae'r rhieni a'r neiniau a'r teidiau'n dod allan i chwarae hefyd, sy'n ein helpu i feithrin gwir ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch sy'n estyn y tu hwnt i'r sesiwn dwy awr.

Rydym bellach yn ein trydedd flwyddyn swyddogol o brosiect Stryd

Chwarae Romilly Road. Yn yr amser hwnnw, rydym wedi cynnal partïon pen-blwydd, ac wedi croesawu criwiau camera ac ymweliadau gan bwysigion lleol, oll yn dathlu'r pleser a geir o chwarae yn y gymdogaeth a sut y mae'n dwyn pawb ynghyd. Rwy'n falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni fel cymuned a sut rydym wedi creu man i'n plant chwarae.

**Mae ein cymdogion oll yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r sesiynau stryd chwarae hefyd:**

**"Mae'r stryd chwarae wedi dod â'r gymuned ynghyd yn fwy nag unrhyw weithgaredd arall y gallaf ei gofio. Mae wedi ein helpu i ddod i adnabod ein cymdogion yn well, gwneud llawer o ffrindiau newydd a rhoi ymdeimlad o berchnogaeth ac ymrwymiad i'r stryd rydym yn byw arni."**

**"Fe wnaethom symud i'r stryd yn ystod y pandemig, felly nid oeddem yn adnabod unrhyw rai o'n cymdogion. Mae'r stryd chwarae wedi ein helpu i gwrdd â llawer o bobl ac mae ein plant wedi gwneud hynny hefyd, ac mae wedi creu ethos mor gymdogol, yn llawn hwyl a charedigrwydd."**

**"Mae cael cyfle i'n bechgyn chwarae y tu allan i'r tŷ heb boeni y bydden nhw'n cael eu hanafu wedi bod yn amhrisiadwy."**

**"Mae gen i blentyn sydd bron yn dair oed sydd wedi mwynhau'r sesiynau chwarae misol gyda'i ffrindiau a'i chymdogion yn fawr. Cefais fy magu mewn cymuned agos iawn, gan dreulio'r rhan fwyaf o'm plentyndod yn yr awyr agored gyda ffrindiau. Pleser pur yw gwylio fy merch yn cael gwneud yr un peth nawr ac mae'n fy llenwi â hiraeth."**



**"Mae wedi bod yn allweddol o ran ein helpu i ddod i adnabod ein cymdogion, sydd bellach yn ffrindiau i ni (fe wnaethom symud i mewn ychydig cyn i'r stryd chwarae ddechrau). Mae wedi helpu fy merch tair oed yn fawr o ran ei hyder cymdeithasol."**

**"Pan symudon ni i'r Barri, roedd y stryd chwarae'n un o'r pethau wnaeth ein helpu i ganfod cymuned. Mae fy mab ifanc wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi chwarae â nhw ac mae hyn wedi cynyddu ei hyder mewn ardal newydd, ac wrth fynd i ysgol newydd. Rwyf wedi helpu i stiwardio o bryd i'w gilydd ac mae'r preswylwyr wedi bod yn fwy na bodlon cydymffurfio â'r cyfnod byr o gau'r ffordd ar ddiwrnod tawel o'r wythnos."**

Mae'r Stryd Chwarae wedi fy helpu i ddod i adnabod cymdogion sy'n oedolion na fyddwn i wedi cwrdd â nhw fel arall (oherwydd bod ein plant yn mynd i ysgolion gwahanol ac oherwydd, wrth i chi fynd yn hŷn, mae'r cyfleoedd i ddod i adnabod pobl eich oedran chi yn lleihau). Rwyf wrth fy modd yn stiwardio ac mae fy mhlant wedi cymryd rhan, drwy chwarae a thrwy drefnu gweithgareddau fel helfa drysor. Mae wedi dod yn ddigwyddiad cymunedol, ac rwy'n edrych ymlaen ato bob mis.

Mae'r rhieni wir yn gwerthfawrogi'r agwedd gymdeithasol a'r cyfle i'w plant gael y rhyddid i redeg o gwmpas a chymysgu â phlant eraill. Rwy'n credu ein bod ni oll yn deall fel cymdeithas – oherwydd ceir, oriau gwaith hir a gweithgareddau ar-lein – bod gennym lai o gyfleoedd i gymdeithasu â phobl sy'n byw o'n cwmpas ni. Mae pawb wedi mynd yn fwy ynysig yn yr 20 i 30 mlynedd diwethaf. Mae ein stryd chwarae yn mynd i'r afael â hyn mewn ffordd fendigedig drwy ein hailgysylltu ag amgylchedd sy'n ddiogel ac yn hwyliog a lle nad oes rhaid i unrhyw un wario arian er mwyn ymuno.

Mae cyfarwyddiadau a phecynnau cymorth stryd chwarae ar gael yn yr adran Llyfrgell adnoddau ar wefan Chwarae Cymru:
**www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**

# Diwrnod Chwarae 2025

# Mannau ar gyfer chwarae

**Ddydd Mercher 6 Awst, roedd Cymru a gweddill y DU yn dathlu Diwrnod Chwarae, y diwrnod cenedlaethol blynyddol ar gyfer chwarae. Mae Diwrnod Chwarae yn ddiwrnod i ddathlu hawl pob plentyn i chwarae ac i bwysleisio pwysigrwydd a gwerth chwarae ym mywydau plant.**

Amlygodd thema'r ymgyrch ar gyfer Diwrnod Chwarae 2025 bwysigrwydd mannau hygyrch, cynhwysol lle mae plant ac arddegwyr yn cael cyfleoedd i chwarae'n rhydd, i dreulio amser ynddyn nhw a chysylltu â'u ffrindiau – a theimlo'n rhan werthfawr o'u cymuned. Dewiswyd y thema i'n hatgoffa bod mynediad at fannau chwarae o safon yn hanfodol i hapusrwydd a datblygiad plant, a'u bod yn cynnig cyfleoedd i roi hwb i iechyd corfforol a lles emosiynol.




Creu cuddfan cardbord yn Llanrhymni, Caerdydd

Ledled Cymru, mwynhaodd miloedd o blant a theuluoedd ddiwrnod llawn hwyl mewn digwyddiadau lleol a rhanbarthol. Cydweithiodd trefnwyr y Diwrnod Chwarae yn lleol i wneud yn siŵr bod plant a theuluoedd yn eu hardal yn gallu dathlu'r diwrnod chwarae cenedlaethol.

**Dyma gasgliad bach o luniau o blant a theuluoedd yn mwynhau dathliadau'r Diwrnod Chwarae yng Nghymru.**



Gwneud llanast gyda'r llithren ddŵr yn Llanharan, Rhondda Cynon Taf



Paentio wynebau a throelli ffabrig yn Y Sblot, Caerdydd




Yr oedolion yn helpu i dostio malws melys yn Nhŷ Bedwellty, Tredegar




Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, yn cael hwyl yn y digwyddiad dathlu yn Aberaeron



Doniau arbennig ar y cylch hwla yn y digwyddiad mawr yng nghanol dinas Wrecsam



Plant ac oedolion yn mwynhau clamp o bwll tywod ym Marc Eirias, Bae Colwyn



Hwyl twnnel i blant bach yn Rodney Parade, Casnewydd

## Dyddiad i'ch dyddiadur

Bydd Diwrnod Chwarae 2026 yn cael ei gynnal ddydd **Mercher 5 Awst!**

# Gwella mannau chwarae a meysydd chwarae

## Buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwella cyfleoedd i chwarae

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden yn sgwrsio gyda'r plant a rhieni yn y lansiad ariannu

**Fel yr adroddwyd yn rhifyn 64 o *Chwarae dros Gymru*, mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid cyfalaf ar gyfer mannau chwarae a meysydd chwarae. Fel rhan o gyllideb 2025-26, cytunodd Llywodraeth Cymru ar nifer o ddyraniadau cyllid a materion polisi gyda Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.**

Mae'r cytundeb yn canolbwyntio ar gyfres o gyd-flaenoriaethau, sy'n sicrhau mwy na £100 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys £5 miliwn o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chefnogi'r cam o greu mannau chwarae a chyfleoedd i chwarae sy'n hygyrch i blant.

Nod y cyllid cyfalaf mannau chwarae a meysydd chwarae yw darparu cyfleoedd gwell i blant chwarae yn eu cymunedau lleol. Bydd y grant yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymateb i'r diffygion a nodwyd yn eu Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac yn darparu hyblygrwydd i brynu eitemau i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chreu mannau chwarae cynhwysol a hygyrch.

Caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu drwy'r Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan a gofynnwyd i awdurdodau lleol ystyried canlyniadau eu Hasesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wrth ystyried eu cynigion ar gyfer cyllid i wella ansawdd a nifer y mannau chwarae a meysydd chwarae. Gofynnwyd iddynt dalu sylw i agweddau penodol ar yr asesiad:

- **Darparu ar gyfer anghenion amrywiol**, sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol a phartneriaid i anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a dod at ei gilydd.
- **Mannau sydd ar gael i blant chwarae**, sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau mynediad ar gyfer pob man chwarae dynodedig a gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch, ac asesu eu gwerth o ran chwarae.
- **Ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol**, sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i ymgynghori'n eang â phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill er mwyn cael eu barn ynghylch darpariaeth chwarae. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r grwpiau perthnasol i wella cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal.

**Gallai enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ariannu gynnwys prynu:**

- cyfarpar, fel gasebos neu strwythurau â tho arnynt, a fydd yn galluogi sesiynau chwarae i gael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn
- cyfarpar cludadwy i alluogi chwarae peripatetig
- cyfarpar i hwyluso chwarae ar y stryd
- cyfarpar i greu llwybrau sy'n edrych yn naturiol a llwybrau natur sy'n cynnwys chwarae i blant
- cyfarpar neu strwythurau i gefnogi mannau chwarae cynhwysol a hygyrch
- gwaith atgyweirio neu adnewyddu cyfarpar mewn mannau chwarae a meysydd chwarae
- goleuadau ar gyfer mannau chwarae.

## Lansio'r gronfa

I lansio'r gronfa, ymwelodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS, â maes chwarae Williams Field Lane yn Nhrefynwy sydd wedi'i adnewyddu, lle y cyfarfu â rhieni a phlant sy'n cael budd o'r cyfleusterau. Yma, mae Becky Hall, Arweinydd Datblygu Chwarae Cyngor Sir Fynwy, yn dweud wrthym am y man chwarae.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant, oherwydd ei werth o ran hamdden ac oherwydd y rhan bwysig mae'n ei chwarae o ran iechyd corfforol ac emosiynol plant, eu lles a'u datblygiad personol.

**Mae chwarae yn agwedd bwysig ar gyflawni gweledigaeth cynllun corfforaethol y cyngor:**

- Lle teg i fyw lle y mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau.
- Lle diogel i fyw lle y mae gan bobl gartref a chymuned lle y maent yn teimlo'n ddiogel.
- Man cysylltiedig lle y mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac wedi'u gwerthfawrogi.
- Lle i ddysgu lle y mae gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial.

Mae'r elfennau hyn o'n cynllun corfforaethol yn adlewyrchu amcanion Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru lle y dylai plant gael amser, lle a chaniatâd i chwarae fel rhan o'u cymuned.

Ein nod fel awdurdod lleol yw sicrhau bod mynediad a chyfleoedd digonol i blant a phobl ifanc chwarae. I gyflawni hyn, mae cydweithio ar draws cyfarwyddiaethau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu chwarae ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r tîm Teithio Llesol yn gweithio'n agos gyda'r tîm Datblygu Chwarae i sicrhau bod mynediad at chwarae'n cael ei ystyried wrth ddatblygu llwybrau teithio llesol. O'r herwydd, mae cynlluniau ac ymyriadau teithio llesol o amgylch Sir Fynwy wedi helpu i gynyddu mynediad i ddarpariaeth chwarae, gan gynnwys Williams Field Lane.

Defnyddiwyd cyllid o'r Gronfa Teithio Llesol i wella'r maes chwarae drwy Gynllun Teithio Llesol Williams Field Lane.

**Dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS:**

'Rydyn ni eisiau Cymru lle mae pob plentyn yn teimlo'n iach yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol ac yn gallu cael mynediad at eu hawl i chwarae … Bydd y cyllid hwn yn gwella profiadau plant ac yn eu helpu i fagu hyder a datblygu eu sgiliau.

Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i gefnogi ein huchelgeisiau i wella cyfleoedd i chwarae, a hyrwyddo manteision chwarae er lles plant.'

Mae hyn wedi cynnwys cymysgedd o waith plannu, creu ardaloedd chwarae naturiol ecogyfeillgar, gosod cyfarpar fel siglenni, ac ystod o gyfarpar ecogyfeillgar ar gyfer datblygiad plant, fel tŷ draenogod.

Adeiladwyd y prosiect hwn yn 2020, a dyma'r cyntaf o'i fath i ddefnyddio cronfeydd teithio llesol i ddatblygu parc chwarae. Datblygodd y cynllun lwybr diogel i gerddwyr sy'n cysylltu Ysgol Gynradd Overmonnow ag ystadau tai lleol gan fynd â theuluoedd i giatiau'r ysgol. Gweithiodd yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â'r ysgol i sicrhau bod gan blant y cyfle i ddefnyddio'r ardal hon fel ardal ddysgu naturiol yn yr awyr agored, yn ogystal â gallu defnyddio'r cyfarpar chwarae.

Dywedodd rhiant o Ysgol Gynradd Overmonnow:

> **"Rydym yn defnyddio'r parc bob dydd ar ôl ysgol, mae'n hyfryd gadael i'r plant chwarae gyda'i gilydd ac ymlacio ar ôl ysgol."**

Ychwanegodd rhiant arall:

> **"Mae'n braf cael y parc, yn enwedig os ydym ychydig yn gynnar, yna gallwn ei ddefnyddio. Hefyd, mae'n braf mynd i'r parc ar y ffordd adref o'r ysgol."**

## Meddai Chwarae Cymru

'Mae Chwarae Cymru'n croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru i wella meysydd chwarae a chyfleusterau chwarae i blant. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru'n parhau i'w wneud i chwarae plant, gan gydnabod y cyfraniad pwysig y mae'n ei wneud i blentyndod iach a hapus. Mae cael mynediad at fannau croesawgar sydd wedi'u dylunio'n dda yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a hapusrwydd plant, ymgysylltiad cymunedol a lles, ac mae'n gwella'r ymdeimlad lleol o gymuned. Mae'r cyllid hwn yn darparu cyfle unigryw i fuddsoddi mewn dyluniadau arloesol a chynaliadwy ar gyfer mannau chwarae i blant o bob oed.'

# Plant ledled Cymru a Japan yn dathlu'r pleser a geir drwy chwarae

**Ar 11 Mehefin 2025, dathlodd plant ledled Cymru a gweddill y byd Ddiwrnod Rhyngwladol Chwarae. Yma, mae Marianne Mannello, ysgrifennydd cangen International Play Association (IPA) Cymru Wales, yn adrodd ar brosiect cydweithredol i ddathlu'r diwrnod.**

Mae Diwrnod Rhyngwladol Chwarae yn ddathliad byd-eang sy'n amlygu pŵer chwarae ym mywydau plant. Caiff y diwrnod ei drefnu'n flynyddol gan y Cenhedloedd Unedig ac mae'n cadarnhau hawl pob plentyn i chwarae ac yn hyrwyddo chwarae fel elfen sy'n hanfodol i les, dysgu a datblygiad iach.

Mae 2025 yn Flwyddyn Cymru a Japan Llywodraeth Cymru, felly roedd yn ymddangos yn briodol bod IPA Cymru yn cydweithio â changen Japan o'r International Play Association. Roeddem eisiau i'n prosiect cydweithredol ganolbwyntio ar blant cymaint â phosibl, felly roeddem wrth ein boddau pan gytunodd IPA Japan i ymuno mewn partneriaeth â ni i gynhyrchu ffilm wedi'i harwain gan blant. Mae'r cynnyrch gorffenedig, a gafodd ei ffilmio gan aelodau'r canghennau ledled y ddwy wlad, yn amlygu'r pleser y bydd plant yn ei gael wrth chwarae. Mae'n ein hatgoffa bod ein plant, lle bynnag y bônt, yn gwerthfawrogi chwarae'n fawr a bod angen iddynt allu chwarae… bob dydd.

Dangosodd y ffilm blant yn chwarae ledled Cymru a Japan ac mae'n cynnwys cyfweliadau â phlant o bob oed – yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Japaneg – gan rannu'r hyn y maent yn ei hoffi am chwarae. Mae'r ffilm fer ar gael yma: **www.chwarae.cymru/publications_category/celebrating-play-a-short-film/**

Roedd y thema ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Chwarae eleni, Dewis Chwarae – Bob Dydd, yn ein hatgoffa'n bwerus nad rhywbeth ar gyfer un diwrnod yn unig yw chwarae, mae'n rhywbeth i'w warchod a'i flaenoriaethu drwy gydol y flwyddyn. Dyma pam y gwnaethom alw ar ysgolion, ysbytai, teuluoedd a chymdogion/aelodau o gymunedau i roi digon o gyfleoedd i blant o bob oed chwarae, bob dydd.

Fel y dywed y plant yn y ffilm wrthym, mae chwarae yn ganolog i'w lles a'u hapusrwydd. Iddyn nhw, mae chwarae'n rhywbeth hanfodol, nid dewisol.

> **'Os nad wyt ti'n chwarae, mi fyddet ti'n sdyc gartref.'**
>
> **'Pan fyddwn ni'n mynd allan, rydyn ni'n gallu mynegi ein hunain lawer mwy na phan fyddwn ni yn y dosbarth.'**
>
> **'Fydda'i ddim yn teimlo'n unig pan fydda i'n chwarae gyda rhywun arall.'**
>
> **'Ac rwy'n anghofio am bopeth sy'n stresio fi ac fe fydda'i jesd yn cael hwyl gyda fy ffrindiau.'**
>
> **'Wel, rwy'n caru chwarae oherwydd rwy'n cael chwarae gyda fy ffrindiau a dydw i ddim yn teimlo fy mod yn cael fy ngadael allan.'**
>
> **'Heb chwarae, does gen i ddim i'w wneud.'**

I gael gwybod mwy am IPA Wales, cysylltwch ag **ipacymru@chwarae.cymru**

# Poster hawl i chwarae

**Rydym wedi gweithio gyda'n darlunydd i greu poster hawl i chwarae i atgoffa pawb pa mor bwysig yw chwarae i bob plentyn.**

Mae'n adnodd gwych i hyrwyddo hawl plant i chwarae ar ddiwrnodau ymwybyddiaeth – fel y Diwrnod Rhyngwladol Chwarae a'r Diwrnod Chwarae – a thrwy gydol y flwyddyn.

Mae'r poster ar gael i'w lawrlwytho yn y Llyfrgell adnoddau ar ein gwefan: **www.chwarae.cymru/publications_category/right-to-play-poster/**



# Chwarae yn gwrthweithio effaith byd sydd wedi mynd o chwith

**Is-gadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yr Athro Emeritws Philip Jaffé, sy'n rhannu ei farn am bwysigrwydd hawl plant i chwarae a sut y dylid blaenoriaethu hynny mewn byd heriol sy'n newid.**



Mae cymaint yn digwydd mewn perthynas â hawliau plant fel ei bod wedi dod yn anodd iawn bod yn realistig. Sut y mae rhywun yn pennu blaenoriaethau pan fo angen popeth ar frys, a phan fo bywyd yn y fantol mewn rhai rhannau o'r byd? Yn ogystal â hynny, mae'n ymddangos bod pob mater yr ydym yn ei drafod yn rhan o siambr atsain lle mae cydymffurfiaeth yn rheoli.

Byddai'n esgeulus i mi beidio â chynnig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel glasbrint y dylem oll ei ddilyn – yn llywodraethau, yn gymdeithas sifil ac yn rhanddeiliaid. Ond nid yw'r confensiwn bellach yn gweithio fel y'i bwriadwyd ac mae Aelod-wladwriaethau'n dewis a dethol y ffordd y maent yn ymdrin â hawliau plant. Fy marn bersonol i yw hon, ond mae'n seiliedig ar fy mhrofiad o eistedd ar Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn y dirwedd hon ble mae eiriolaeth, polisi ac ymateb i argyfyngau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, mae'n hanfodol nad ydym yn colli golwg ar anghenion cyfannol plant. Mae hawl ac angen plant i chwarae ymysg yr hawliau a anwybyddir fwyaf, ond hefyd ymysg y rhai mwyaf sylfaenol.

**Nid yw chwarae'n rhywbeth moethus nac yn bryder ymylol – mae wedi'i ymgorffori yn Erthygl 31 CCUHP fel hawl sylfaenol, sy'n cydnabod bod chwarae'n hanfodol i ddatblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn.**

Beth yw rhai o'r blaenoriaethau y mae plant yn eu hwynebu? Mae adroddiad 2024 UNICEF, *The Future of Childhood in a Changing World*, yn pennu'r cywair.

**Mae'n nodi tri thuedd amlwg sy'n llywio'r dyfodol hyd at 2050:**

- trawsnewidiad demograffig enfawr
- yr argyfyngau hinsawdd ac amgylcheddol sy'n dwysáu
- dylanwadau cynyddol technolegau trawsffiniol.

Gallem ychwanegu'r argyfwng iechyd meddwl, cynnydd mewn tlodi (hyd yn oed yn ein gwledydd democrataidd cyfoethog) ac, mewn rhai rhanbarthau, trawma corfforol a seicolegol yn sgil rhyfeloedd. I'r plant hyn, mae'r ymadrodd 'tameidiau o blentyndod' wedi serio ar fy nghof. Nid yw tameidiau'n dderbyniol! Yn erbyn y cefndir hwn, dylai diogelu a hyrwyddo'r hawl i chwarae fod yn un o feini prawf ein blaenoriaethau, i ddangos a ydym yn gwarchod hawliau plant yn llawn mewn gwirionedd.

**Mae chwarae yn llawer mwy na difyrrwch. Dyma lle mae creadigrwydd a dychymyg yn cael eu sbarduno a'u cynnal. Drwy chwarae, mae plant yn creu bydoedd, yn gwthio ffiniau, yn datrys problemau ac yn dychmygu posibiliadau newydd.**

Mae ymarfer creadigrwydd nid yn unig yn ganolog i les a datblygiad plentyn, mae hefyd yn fuddsoddiad yn nyfodol y ddynoliaeth. Mewn byd a ddiffinnir gan newidiadau cyflym a heriau sy'n cynyddu, mae'r gallu i feddwl yn greadigol, i addasu'n gyflym ac i fynd i'r afael â phroblemau gyda dychymyg yn fwy hanfodol nag erioed. Yr oedolion a fydd yn wynebu argyfyngau mwyaf cymhleth y byd rhyw ddydd yw'r plant sy'n adeiladu cestyll tywod, yn dyfeisio eu gemau eu hunain ar yr iard ac yn dychmygu storïau newydd gyda'u ffrindiau heddiw.

Os ydym am feithrin byd sy'n gallu ymateb i fygythiadau dirfodol ac ymateb yn ddyfeisgar ac yn ddewr yn hytrach na thrwy gydymffurfiaeth ac ofn, rhaid i ni sicrhau bod gan bob plentyn gyfleoedd ystyrlon i chwarae. Mae gwarchod yr hawl i chwarae nid yn unig yn arwydd o ofalu am les plant, mae'n weithred hanfodol o obaith a chyfrifoldeb dros yr atebion creadigol sydd eu hangen yn ddirfawr ar gyfer y dyfodol a rannwn.

Ymunwch â'n cynhadledd genedlaethol i glywed mwy gan Philip Jaffé. Mae mwy o wybodaeth am ein prif siaradwyr a sut i archebu lle ar gael yma: **www.chwarae.cymru/digwyddiadau/**

## Datblygu'r gweithlu

# Dan y chwyddwydr…

**Ym mhob rhifyn, rydym yn siarad â gweithiwr proffesiynol yn y byd chwarae a gwaith chwarae i roi darlun o amrywiaeth yn y gweithlu a'r mathau o swyddi sydd yn y sector. Ar gyfer y rhifyn hwn, fe wnaethom siarad â Julia Sky, Swyddog Datblygu Chwarae Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg.**

### Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi eich hun a sut y gwnaethoch ddechrau yn y sector chwarae/gwaith chwarae?

Dechreuodd fy nhaith gwaith chwarae yn 2012, pan oeddwn yn edrych am swydd haf ar ôl gorffen yn y brifysgol ac yn ystyried swydd fel athrawes. Ymunais â'r tîm chwarae yr haf hwnnw, roeddwn i wrth fy modd a wnes i ddim edrych yn ôl! Gan mwyaf, roeddwn yn gweithio ar sesiynau ceidwaid chwarae mewn parciau a mannau agored ledled y Fro, yn ogystal ag ambell ddigwyddiad, a'n sesiynau chwarae cynhwysol. Agorodd yr haf hwnnw fy llygaid i bwysigrwydd chwarae a ddewisir yn rhydd – roeddwn yn gwybod fy mod am ddilyn gyrfa mewn gwaith chwarae.

### Beth yw cynnwys eich rôl?

Rwy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu cyfleoedd chwarae cymunedol ledled y sir. Mae bob dydd yn wahanol: o ddarparu hyfforddiant, cysylltu ag ysgolion a phartneriaid cymunedol, cefnogi ein menter chwarae stryd, cydgysylltu ein darpariaeth chwarae mynediad agored, i gynnal ein hystorfa enfawr o rannau rhydd ac adnoddau ar gyfer chwarae!

### Beth yw'r agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus ar eich gwaith?

Pan fydda i'n gallu gweld chwarae yn gwneud gwahaniaeth, boed hynny drwy gynnal sesiynau chwarae, cefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed neu rymuso aelodau o'r gymuned drwy ddarparu hyfforddiant gwaith chwarae. Rwy'n credu bod gwaith chwarae yn beth mor ystyrlon ac mae rhannu hynny ag eraill yn anhygoel.

### Sut ydych chi'n credu y byddai gwybodaeth am y dull gwaith chwarae yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant? (er enghraifft, athrawon, gweithwyr ieuenctid neu ofal plant)

Rwy'n credu bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dull gwaith chwarae yn bwysig iawn i unrhyw un sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae'r ethos gwaith chwarae yn cael ei arwain gan blant ac rwy'n wirioneddol gredu, pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r dull gwaith chwarae, y byddai hynny mor fuddiol i blant a phobl ifanc, gan roi dewis iddyn nhw, a llais a'r rhyddid i gyfleu eu hunain mewn mwy o feysydd.

### A oes unrhyw beth yr ydych chi'n ei chael yn heriol am eich swydd?

Y ffaith nad oes gan y sector arian i fuddsoddi mewn seilwaith. Gallem wneud mwy o wahaniaeth pe byddem yn fwy na thîm o ddau!

# Diweddariad: Adolygiad o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae 2025

**Ers y rhifyn diwethaf, mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ei adolygiad a hunan-ariannwyd o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae.**

Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cwmpasu'r pedair gwlad – Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr – ac fe'i cefnogir gan arbenigwyr yn y sector, Cynghorau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC), a rhanddeiliaid ledled y DU.

## Cyflawniadau allweddol

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r gwaith ar yr adolygiad wedi symud yn ei flaen yn sylweddol. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

### Datblygu'r map swyddogaethol

Mae'r consortiwm wedi drafftio map swyddogaethol i amlinellu prif bwrpas a phrif swyddogaethau gwaith chwarae. Mae hyn yn rhan o'r broses o ddatblygu NOS fel y'i hamlinellir gan y Panel Safonau a Fframweithiau. Rhannwyd y map gyda Grŵp Ymgynghorol NOS a grwpiau rhanddeiliaid eraill i gael adborth. Mae'r map swyddogaethol yn parhau i esblygu wrth i'r NOS eu hunain gael eu llunio.

Yn sail i ddatblygu'r map swyddogaethol mae rhai egwyddorion sylfaenol, gan gynnwys:

- canolbwyntio ar waith chwarae fel dull gweithredu
- cydnabod ystod o leoliadau lle mae gwaith chwarae'n digwydd
- symleiddio safonau i sicrhau eu bod yn fwy cyfannol ac yn addas at y diben i lunio cymwysterau'r dyfodol, yn enwedig Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQs)
- integreiddio yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

# Datblygu'r gweithlu

### Adolygu a drafftio'r NOS

Cynhaliodd Grŵp Ysgrifennu'r NOS adolygiad o'r safonau presennol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r safonau newydd ar gyfer gwaith chwarae. Drwy gydol y broses, mae terminoleg yn cael ei mireinio, ac mae geirfa yn cael ei datblygu i sicrhau bod iaith glir, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn iaith ar draws y pedair gwlad, yn cael ei defnyddio.

### Ymgysylltu â'r sector ac adborth

Fe wnaethom hwyluso sesiynau gwybodaeth ar y map swyddogaethol yn y National Playwork Conference a'r Fforwm Gweithwyr Chwarae. Bydd mwy o waith ymgysylltu yn cael ei wneud gyda'r Grŵp Cynghori yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyn cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol ar-lein i ymgynghori ar y safonau drafft.

Wrth wneud sylwadau ar gynnydd yr adolygiad, dywedodd Jane Hawkshaw, Cadeirydd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU:

> **"Rydym yn falch o weld y drafodaeth a'r ystyriaeth ddwys sy'n cael ei rhoi i'r broses gan y grŵp ysgrifennu. Hoffwn hefyd gydnabod pawb sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r grŵp cynghori ar yr NOS. Bydd eu harbenigedd yn helpu i lunio'r safonau drafft."**

I gael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr adolygiad, ewch i: **www.chwarae.cymru/gwaithchwarae/gweithlu**

# Fforwm Gweithwyr Chwarae 2025

## Dathliad o gysylltiad a chreadigrwydd

**Bob blwyddyn, mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae yn dod ag ymarferwyr ynghyd o bob cwr o Gymru a thu hwnt ar gyfer deuddydd o ddysgu, rhannu gwybodaeth ac ymchwiliad chwareus mewn lleoliad unigryw yn yr awyr agored.**



Parhaodd Fforwm Gweithwyr Chwarae 2025 â'r traddodiad hwn gydag egni a brwdfrydedd, gan gynnig man i fyfyrio, cysylltu a dathlu'r proffesiwn gwaith chwarae.

Fe'i cynhaliwyd unwaith eto yn y Willow Globe poblogaidd ger Rhaeadr a chroesawyd y cyfranogwyr i leoliad sy'n cyfuno prydferthwch naturiol â chyfleusterau ymarferol. Darparodd y babell fawr loches ar gyfer gweithdai a thrafodaethau, ac roedd y caeau cyfagos yn fan ar gyfer gemau, gwersylla a gweithgareddau creadigol. Disgrifiwyd yr awyrgylch gan y mynychwyr fel 'ysbrydoledig a hwyliog' a 'man diogel i fyfyrio a dysgu gan eraill'.

Roedd y rhaglen yn cynnwys cymysgedd cyfoethog o brif anerchiadau, gweithdai ymarferol a sesiynau myfyriol. Roedd anerchiad Ben Tawil ar yr adolygiad llenyddol *Chwarae a lles* yn un o'r uchafbwyntiau a rhoddodd gyfle i'r cyfranogwyr feddwl am sut y mae dealltwriaeth o'r ymchwil yn cyfrannu at eu hymarfer gwaith chwarae, ymgysylltiad â'r gymuned a gwaith eirioli. Cafodd y gweithdai ymarferol ar y diwrnod cyntaf groeso yr un mor frwd, gan gynnig profiadau ymarferol fel sut i gynnau tân, creu barcud, adeiladu strwythurau a chwarae yn llawn dychymyg. Meddai un cyfranogwr, 'Dysgais sut i wneud barcud, a chefais syniadau ar gyfer defnyddio tân a sut i wneud iglw o lanhawyr pibellau'.

Roedd yr ail ddiwrnod yn cynnwys y gweithdy Chwarae o Safon a sesiwn ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae, ac ysgogwyd trafodaeth feddylgar gan y ddwy sesiwn. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu â datblygiadau'r sector, gydag un yn nodi, 'Roedd gwneud cyfraniad bach at y NOS yn wych, ac mae Chwarae o Safon yn syniad arbennig'.

Y tu hwnt i'r sesiynau ffurfiol, roedd yn lle ar gyfer cymdeithasu a chwmnïaeth. Siaradodd y cyfranogwyr am werth rhwydweithio, rhannu storïau o gwmpas y tân ac ailwefru eu batris gwaith chwarae. 'Dyma'r un man lle y gallaf ailffocysu a chymryd cam yn ôl i fyfyrio ar yr hyn rwyf wedi ei gyflawni,' meddai un cyfranogwr. Ychwanegodd un arall, 'Rydym yn edrych ymlaen at hyn drwy gydol y flwyddyn. Pe byddai'n rhaid i mi ddewis un digwyddiad gwaith chwarae fel y gorau, hwn yw'r un.'

Wrth i'r digwyddiad ddod i ben, gadawodd y cyfranogwyr gyda brwdfrydedd newydd, syniadau newydd ac ymdeimlad dyfnach o gysylltiad â'r gymuned gwaith chwarae. Ar ôl 18 mlynedd, profodd Fforwm Gweithwyr Chwarae 2025 unwaith eto ei fod yn fan hanfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol, ysbrydoliaeth a llawenydd … a bydd yn cael ei gynnal unwaith eto y flwyddyn nesaf, ar 1 - 2 Gorffennaf 2026!

# Lôn chwarae ym Mhilgwenlli

**Ym mis Mawrth 2022, comisiynwyd Chwarae Cymru gan Grŵp Pobl i gynnal archwiliad chwarae ym Mhilgwenlli, Casnewydd. Nod yr archwiliad oedd darparu gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mannau chwarae yn yr ardal.**



Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Phrif Gynllun Pilgwenlli sy'n nodi'r uchelgeisiau allweddol ar gyfer yr ardal, y mae datblygu a gwella mannau gwyrdd yn un ohonynt. Mae Brian McGuigan, sy'n Hwylusydd Datblygu Cymunedol ar gyfer Grŵp Pobl, yn adrodd ar y datblygiadau yn yr ardal.

Bu'r Archwiliad Chwarae ym Mhilgwenlli yn allweddol i'n helpu ni a'r gymuned leol i nodi a datblygu darpariaeth chwarae, a sut y gallwn helpu i fynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch diogelwch eu plant wrth iddynt chwarae ym Mhilgwenlli. Nododd yr archwiliad y gellid cyflawni hyn drwy ddatblygu gweithgaredd chwarae lleol iawn – mannau chwarae dros dro. Byddai gwyliadwriaeth naturiol yn y mannau hyn ac ni fyddai angen i blant gerdded o un pen i Bilgwenlli i'r llall er mwyn cael y cyfle i chwarae.

Dyma enghraifft o sut y gwnaethom gymryd rhan mewn prosiect dan arweiniad y gymuned i greu man chwarae dros dro drwy drawsnewid lôn yn llawn chwyn yn fan glân a diogel i blant lleol. Mae preswylwyr y stryd hon wedi profi blynyddoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r lôn hon, gyda phobl yn gwerthu cyffuriau, niwsans sŵn a gwaith rhyw yn digwydd yn ystod y dydd, sydd i'w weld yn glir o'r tai, ac yn enwedig o lofftydd plant yn nhu cefn y tai.

Gadawyd y lôn i dyfu'n wyllt a chafodd ei hesgeuluso. Oherwydd hyn, penderfynodd aelodau o'r gymuned eu bod eisiau adennill y tir hwn a'i droi'n rhywbeth cadarnhaol y gallent ymfalchïo ynddo. Dechreuodd y gwaith gyda'r preswylwyr yn torri'r chwyn, a oedd wedi tyfu hyd at bum troedfedd o uchder.

O ganlyniad i'r archwiliad chwarae, datblygwyd rhwydwaith chwarae lleol. Nododd y rhwydwaith y gallai partneriaid lleol helpu gyda'r gwaith hwn yn ogystal â chefnogi cynnydd y prosiect. Mae'r lôn yn cefnu ar barc busnes, felly roedd yn gyfle da i estyn allan i fusnesau lleol a allai weld gwerth cymdeithasol prosiect o'r fath. Fe wnaeth haelioni'r busnesau lleol wahaniaeth mawr i'r man chwarae dros dro hwn. Cysylltodd aelodau'r gymuned â busnes lleol sy'n darparu *astroturf* a roddodd ddarnau dros ben i'r preswylwyr eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer ardal chwarae fach i blant iau.

> **"Ers y gwelliannau, mae'r lôn wedi dod yn lle diogel, croesawgar ble y gall y plant chwarae a ble y gall cymdogion gael sgwrs. Mae wedi dod â mwy o fywyd a hwyl i'r ardal, ac mae wedi helpu i gryfhau'r ysbryd cymunedol."**
>
> Rhiant ac un o breswylwyr y stryd

Trefnodd cwmni clirio tai lleol i dorri mwy o'r chwyn yn ôl, yn ogystal â darparu ffens ddiogel ar ben y lôn, i atal mynediad anghyfreithlon i'r ardal hon.

Gyda chymorth busnes lleol arall, rhoddwyd eitemau amrywiol i'r gymuned ar gyfer plant, fel trampolîn, goliau pêl-droed, rhwyd pêl fasged, yn ogystal â bocsys tyfu i helpu'r preswylwyr i dyfu ffrwythau a llysiau. Darparodd y busnes hwn beiriant cloddio hefyd i lefelu'r lôn a thynnu'r chwyn o'r ddaear.

Mae'r prosiect hwn wedi dangos beth y gellir ei gyflawni ar raddfa leol iawn: creu man lleol a diogel i blant chwarae yn agos at adref. Ein nod yn y dyfodol yw nodi ardaloedd eraill yn y gymuned lle y gellir ail-greu'r prosiect hwn i sicrhau bod plant ledled Pilgwenlli yn cael yr un math o gyfleoedd chwarae lleol iawn.

Ledled Cymru, mae sefydliadau a grwpiau yn cynnal prosiectau chwarae neu'n gwneud yn siŵr bod gan blant gyfleoedd i chwarae yn eu cymunedau. Ym mhob rhifyn, rydym yn rhannu enghreifftiau o brosiect sy'n helpu i wneud cymuned yn fwy chwareus.

Am enghreifftiau pellach o gymunedau chwareus yng Nghymru ewch i **www.plentyndodchwareus.cymru/chwarae-yn-y-gymuned/ysbrydoliaeth**